

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion Cyfarfod 9 Mehefin 2015 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
YN BRESENNOL		
Ken Brown	Mair Bebb Jones	
Lena Ashley	Nerys John	
Iestyn Harris	Daniel Williams	
Sarah Riley		
Pat Jones		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD	
1.1	<p>Croesawodd y Cynghorydd Ken Brown Cadeirydd y Cyngor yr aelodau i gyfarfod mis Mehefin.</p> <p>Ymddiheuriadau: Louise Hughes a George Smith</p>	
2.0	DATGAN DIDDORDEB	
2.1	Pat Jones a Daniel Williams eitem 9.1. Sarah Riley eitem 9.2	
3.0	COFNODION	
3.1	<p>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blynyddol a chofnodion cyfarfod misol 12fed o Fai 2015.</p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd fel rhai cywir a'u harwyddo.</p>	
4.0	MATERION YN CODI	
4.1	Kronos - Dim gwybodaeth bellach i'w gyhoeddi.	
4.2	Llwybrau lan y dŵr yn y cei a'r Marina - cafwyd eglurhad am y sefyllfa gan y Cynghorydd Siân Gwenllian. Trafodwyd y mater ac roedd yr aelodau yn gytûn nad oeddynt eisiau gweld mynediad i lan y dŵr yn cael ei rwystro felly penderfynwyd byddai ymholiadau yn cael ei wneud ynglŷn â'r broses i alluogi'r Cyngor Cymuned i gofrestru'r llwybrau fel rhai cyhoeddus.	
4.3	Toiledau Glan y Môr - trafodwyd y mater hwn yn drylwyr ynglŷn ag oblygiadau i'r Cyngor os byddent yn cymryd rheolaeth y toiledau oddi wrth Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd gwneud ymchwil pellach.	
4.4	Llwybrau cei - nid yw'r llwybr wedi ei ail agor ar hyn y bryd gan fod symudiad pellach wedi body n y wal.	
4.5	Diogelwch ym mharc bach y cychod - mae'r parc wedi ei glirio ond mae rhai cychod wedi malu yn dal i fod ar y safle. Mae pryderon ynglŷn â cherbydau yn symud a phlant yn chwarae ar y safle. Y Clerc am gyfeirio'r mater at Barry Davies a gofyn am folardiau neu "planter" i'r safle.	CLERC
5.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	NEUADD	
5.1	Adroddodd Y Cynghorydd Daniel Williams ar faterion diweddaraf y neuadd ynglŷn â'r llawr a bod y gwaith heb ei gwblhau i ddyddiad.	DW
6.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL	
6.1	Cadarnhawyd gwariant Mis Mai.	
6.2	Yswiriant - dywedodd y Swyddog Ariannol bod anfoneb Zurich wedi cyrraedd gyda thri phris ar gyfer tri chyfnod gwahanol. Penderfynwyd ar y cynllun 3 mlynedd.	Swyddog Ariannol
6.3	Dywedodd y Swyddog Ariannol bod anfoneb ynglŷn â chasglu gwastraff o'r fynwent wedi ei dderbyn; eleni roedd y gost yn uwch o £160. Penderfynwyd holi Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r codiad cyn ei dalu.	Swyddog Ariannol
6.4	Is bwyllgor cyflogaeth - adroddwyd bod argymhelliad wedi cael ei wneud i godi graddfa'r clercod un pwynt a byddant yn edrych eto ar godi oriau'r clercod. Y Clercod i gadw cofnod o'i hamser.	
7.0	GOHEBIAETH	
7.1	Grŵp Cynefin - Grant datblygu cymunedol - cyflwynwyd y ffurflen i rai aelodau'r cyngor er mwyn ystyried a fyddai'r grant yn addas ar gyfer cynlluniau gwella'r offer yn y cae chwarae yn enwedig ar gyfer plant anabl.	SR/NJ
7.2	Sylwadau ar y cynllun adnau o ran ei effaith ar y Gymraeg – Cylch – Gwybodaeth yn unig	
7.3	Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Gwynedd - Gwybodaeth yn unig.	
7.4	Her Gwynedd – gwahoddiad i gyfarfod.	
8.0	ADRODDIAD Y CLOC	
8.1	Mae'r contractwr wedi cael gwybod ei fod wedi bod yn llwyddiannus a bellach bydd y pensaer yn gallu anfon cais am gymorth ariannol at Cadw.	CLERC
9.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
9.1	C15/0004/20/LL ail gyflwyniad o gais blaenorol o wrthodwyd (C15/0004/20/LL) i godi ty fforddiadwy deulawr 4 ystafell wely gyda mordurdy cysylltiol, mynedfa gerbydol gyda ffordd mynediad a gosod gwaith trin cysylltiol – tir ger Bronallt Tan y Maes, Y Felinheli, LL56 4UQ – DIM GWRTHWYNEBIAD	
9.2	C15/0363/20/LL – Diwygio amod 2 o ganiatad cynllunio C15/0027/20/LL i ganitau gosod dau banel gwydr clir yn lle gwydr ofloyw ar y drychiad de-orllewin – 22 Bryn y Môr, Y Felinheli LL56 4LY – DIM SYLWADAU	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

9.3	C15/05/22/18/LL – cais ar gyfer gosod paneli pv sy'n ddigwyddiad i'r rhai a ganiatawyd drwy ganiatad C15/0070/18/LL – Greenwood Forest Park, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QN – DIM SYLWADAU	
9.4	C15/0500/20/LL – Cais ar gyfer codi estyniad unllawr ar gefn eiddo ynghyd a darparu balcony uwchben – 3 Tai'r Felin, Y Felinheli, LL56 4JF – DIM GWRTHWYNEBIAD	
10.0	ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT	
	Dim i'w adrodd	
11.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	
11.1	Y Cynghorydd Ken Brown yn datgan bod gwaith o glirio'r tyfiant o'r maes parcio at y Lon Las wedi ei gwblhau.	
11.2	Dywedodd y Cynghorydd Mair Bebb Jones bod 10 teiar wedi eu taflu ger y bont ar y Lon Las. Y Clerc i adrodd ar y mater i Gyngor Gwynedd.	CLERC
12.0	ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANAU A MEINCIAU	
12.1	Dywedodd y Cynghorydd Nerys John bod y daflen ynglŷn â'r teithiau a llwybrau cyhoeddus y pentref wedi ei chwblhau a bod y gwaith o'i chyhoeddi yn symud ymlaen.	
12.2	Cafwyd gwybodaeth bod angen trwsio cysgodfan bws ger y Wern - y Clerc i wneud ymholiadau i weld pa gwmni fyddai yn gallu ymdrin â'r gwaith.	
13.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
	Gweler Atodiad 1	
14.0	CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL	
14.1	Y mater yn dal i dderbyn sylw gan y Clwb Hwyllo.	
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 09:35 yn yr hwyr.	
Llofnod:		Dyddiad: